Adnodd 5c.

**Senarios - Pwy sydd mewn Perygl? Awgrymiadau Athrawon**

Canfyddwch unrhyw bobl ifanc sydd mewn perygl ar-lein o gael eu niweidio.

1



Mae Janie yn 14 oed, mae hi'n defnyddio Instagram yn rheolaidd i bostio lluniau ohoni ei hun. Mae ei phroffil yn dweud beth yw ei henw iawn a'i dyddiad geni, ei hoedran, lle mae hi'n byw, ei hoffter o geffylau a'i holl hoff bethau. Mae ei gosodiadau proffil yn agored i unrhyw un weld ei lluniau.

Mae Janie yn cynyddu eu pherygl o niwed ar-lein trwy: bostio lluniau ohoni ei hun ar blatfform cyfryngau cymdeithasol agored, postio llawer o wybodaeth bersonol i bawb ei gweld.

2



Mae Mike yn 14 oed. Mae ei osodiadau preifatrwydd ar agor i bawb. Mae wedi bod yn ffrind ar-lein i Karla am chwe wythnos. Mae Karla'n dweud ei bod yn 15 oed ac yn cefnogi Spurs fel Mike. Cafodd ei gyflwyno i Karla gan ferch arall y gwnaeth gyfarfod ar-lein ac mae'n sgwrsio â hi ar-lein, ei henw hi yw Melissa. Nid yw'n adnabod yr un o'r merched all-lein. Mae'r ddwy ferch yn dweud eu bod yn ei ffansio ac eisiau cwrdd ag ef mewn man prydferth lleol.

Mae Mike yn cynyddu ei berygl o niwed ar-lein trwy: dderbyn ffrindiau ar-lein nad yw'n eu hadnabod yn y byd all-lein, ystyried cwrdd â'r merched sy'n ddieithriaid iddo mewn gwirionedd gan na all fod yn siŵr eu bod yn dweud y gwir ynglŷn â phwy ydyn nhw.

Byddai Mike yn lleihau ei berygl trwy: dderbyn ffrindiau mae'n eu hadnabod yn y byd all-lein yn unig, pennu ei osodiadau preifatrwydd i dderbyn ffrindiau yn unig, siarad ag oedolyn mae'n ymddiried ynddo am y cais i gwrdd, peidio â mynd i gwrdd â phobl ar ei ben ei hun ond yn hytrach gydag oedolyn mae'n ymddiried ynddo neu ddim o gwbl.

3



Mae Rhian a Fatima, 12 oed yn defnyddio negeseuon sgwrsio grŵp WhatsApp i sgwrsio â chefnder Keisha, Jay, yn Cyprus. Maen nhw'n anfon lluniau yn ôl ac ymlaen yn awr ac yn y man. Mae Jay yn 15 oed.

Mae Rhian a Fatima mewn grŵp sgwrsio caeedig ar WhatsApp. Efallai eu bod yn ddiogel i siarad â'r cefnder ar-lein. Fodd bynnag, mae'n fachgen hŷn a gallai hyn olygu nad yw rhywfaint o gynnwys y cyfathrebiadau'n briodol i oedran.

Byddai'r merched yn lleihau eu perygl trwy: gael aelodau eraill o'r teulu yn y sgwrs grŵp ar WhatsApp.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

Adnodd 5c.

4



Bachgen 13 oed yw Owain. Mae wrth ei fodd yn chwarae gemau ar-lein ac mae wedi dechrau cyfeillgarwch ar-lein gyda bachgen arall o'r enw Rhys sy'n byw mewn tref gyfagos. Mae Owain wedi dweud llawer o wybodaeth bersonol amdano'i hun wrth Rhys ac mae'n siarad ag ef bob dydd. Mae Rhys wedi helpu Owain i dwyllo wrth chwarae gemau ar-lein. Mae Rhys wedi gofyn am luniau. Nid oes neb o deulu Owain yn ymwybodol o'r cyfeillgarwch ar-lein hwn.

Mae Owain yn cynyddu ei berygl o niwed ar-lein trwy: dderbyn cais i fod yn ffrind gan ddieithryn, rhannu llawer o wybodaeth bersonol gyda'r dieithrin hwn, derbyn ffafrau gan y dieithryn ar-lein hwn, cael gwahoddiad i anfon lluniau at y dieithryn, peidio â dweud wrth unrhyw oedolyn mae'n ymddiried ynddo am y cyfeillgarwch ar-lein hwn.

Byddai Owain yn lleihau ei berygl o niwed ar-lein trwy: bennu ei osodiadau preifatrwydd i dderbyn ffrindiau yn unig, peidio â siarad â dieithriaid ar-lein wrth chwarae gemau, peidio â rhoi gwybodaeth bersonol i bobl ar-lein sy'n ddieithriaid mewn gwirionedd, trwy ddweud wrth oedolyn mae'n ymddiried ynddo am y cyfeillgarwch ar-lein a'r cais am luniau.

5



Mae Molly yn 13 oed ac mae'n byw gyda'i gofalwr maeth. Mae hi'n colli ei hen ffrindiau ers iddi symud ysgol ac mae'n defnyddio gwefannau rhwydweithio ar-lein i gadw mewn cysylltiad â phawb. Mae ei gosodiadau preifatrwydd ar agor i bawb ac mae ganddi 2,167 ffrind ar ei rhestr ffrindiau Facebook.

Mae Molly'n cynyddu ei pherygl o niwed ar-lein trwy: adael i bawb weld beth mae'n ei bostio a pheidio â phennu ei gosodiadau preifatrwydd i dderbyn ffrindiau yn unig, cael llawer o ddieithriaid ar ei rhestr ffrindiau.

Gallai Molly leihau ei pherygl o niwed ar-lein trwy bennu ei gosodiadau preifatrwydd i dderbyn ffrindiau yn unig a pheidio â bod yn ffrindiau gyda phobl mae wedi eu derbyn sy'n ddieithriaid. Gallai Molly siarad â'i gofalwr neu oedolyn arall mae'n ymddiried ynddo am ei hunigrwydd a'i hangen i weld ei ffrindiau.

6



Mae A.J. yn fachgen 14 oed egnïol ac mae newydd gael ffôn newydd. Cafodd brofiad annymunol o fwlian ar-lein gan ddieithryn roedd yn meddwl oedd yn ffrind iddo. Nawr mae ei osodiadau proffil cymdeithasol ar agor i ffrindiau yn unig (pobl mae'n eu hadnabod all-lein hefyd). Mae'n defnyddio ei ffôn yn bennaf ar gyfer negeseuon testun, gwylio pêl-droed a sgyrsiau grŵp gyda'i ffrindiau. Nid oes ganddo fawr i'w ddweud wrth y cyfryngau cymdeithasol.

Mae A.J. mewn llai o berygl o niwed ar-lein oherwydd ei fod wedi dysgu o'i brofiad blaenorol o gael ei fwlian gan ddieithriaid. Mae'n pennu ei osodiadau preifatrwydd i dderbyn ffrindiau yn unig yn awr.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

7



Mae Raisa yn 10 oed. Mae hi'n chwarae gemau ar-lein yn rheolaidd. Mae ei rhieni wedi pennu gosodiadau preifatrwydd ar ei iPad ac maen nhw'n ymwybodol o ba gemau mae hi'n eu chwarae a gyda phwy mae hi'n chwarae.

Mae rhieni Raisa wedi sicrhau bod y perygl o niwed ar-lein wedi cael ei leihau'n sylweddol. Maen nhw'n goruchwylio ei defnydd o'r iPad ac yn gadael iddi fwynhau ei gemau'n ddiogel.

Mae hwn yn gyfle da i ofyn i'r disgyblion a ydyn nhw'n gwybod i sicrwydd os yw eu brodyr a chwiorydd iau mewn perygl o niwed ar-lein. Oes ganddyn nhw osodiadau preifatrwydd sy'n derbyn ffrindiau yn unig hefyd? Beth maen nhw'n chwarae? A ydyn nhw mewn perygl gan ddieithriaid?


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019